

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

DEDDF CARTREFI SYMUDOL (CYMRU) 2013 – POLISI FFFIOEDD

YN WEITHREDOL O 1af o Ebrill 2020

Rhagarweiniad

Daeth Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (“y Ddeddf”) i rym ar 1 Hydref 2014. Cyflwynwyd y Ddeddf er mwyn rhoi mwy o warchodaeth i rai sy’n defnyddio safleoedd cartrefi symudol ar sail breswyl barhaol. Mae’r Ddeddf yn rhoi mwy o bwerau i Awdurdodau Lleol reoleiddio safleoedd, cyflwyno trwyddedau a gwneud gwaith gorfodi i sicrhau y cydymffurfir ag amodau trwydded safle.

Mae’r Ddeddf yn rhoi pwerau i Awdurdodau Lleol godi ffioedd am geisiadau i ddyfarnu neu amrywio trwydded safle. O dan y Ddeddf, gall Awdurdodau Lleol hefyd osod ffioedd fel modd o adennill costau sy’n deillio o ymchwilio i achosion o beidio â chydymffurfio ag amodau trwydded a’u gorfodi.

Mae’r polisi hwn yn nodi’r ffioedd a fydd yn cael eu codi am swyddogaethau trwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (“y Cyngor”). Mae’r ffioedd wedi’u cyfrifo’n deg i dalu’r costau a fyddai i’r Cyngor wrth arfer ei swyddogaethau yn unol â’r Ddeddf. Mae’n rhaid i’r Cyngor weithredu’n unol â’r polisi ffioedd hwn. Mae’r Ddeddf yn galluogi Awdurdodau Lleol i godi gwahanol ffioedd am wahanol achosion neu ddisgrifiadau o achosion. Mae hefyd yn caniatáu i Awdurdodau Lleol bennu nad oes angen talu ffi mewn achosion penodol. Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod Awdurdodau Lleol yn cyhoeddi eu polisi ffioedd ac mae’n rhaid iddynt ailgyhoeddi eu polisïau ar ôl unrhyw newidiadau.

Wrth bennu ffioedd am drwyddedu safle neu amrywio amodau trwydded safle, ni fydd y Cyngor yn ystyried unrhyw gostau o arfer ei swyddogaethau gorfodi nac unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â safleoedd heb eu rheoleiddio. Mae ffioedd sydd ynghlwm â swyddogaethau gorfodi’r Cyngor o dan y Ddeddf yn cael eu codi ar wahân.

Beth yw safle sy’n cael ei reoleiddio?

Mae safle sy’n cael ei reoleiddio wedi’i ddiffinio yn y Ddeddf fel “unrhyw dir yng Nghymru y gosodir cartref symudol arno er mwyn i bobl fyw ynddo (gan gynnwys unrhyw dir yng Nghymru a ddefnyddir ar y cyd â thir o’r fath)”.

Mae rhai eithriadau i’r hyn sy’n cael ei ddiffinio fel safle sy’n cael ei “reoleiddio” yn y Ddeddf. Mae eithriad penodol i safleoedd sy’n cael eu diffinio yn y Ddeddf fel “safleoedd gwyliau”. Mae hyn yn berthnasol i safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio perthnasol neu drwydded safle dan Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960. I safle gael ei gyfrif yn safle gwyliau, mae’n rhaid i ganiatâd cynllunio neu drwydded safle fod wedi’u rhoi at ddefnydd gwyliau yn unig neu ofyn bod adegau yn y flwyddyn lle na all unrhyw gartref symudol fod ar y safle i bobl fyw ynddo.

Mae’r eithriadau eraill i safle sy’n cael ei “reoleiddio” wedi’u nodi yn Atodlen 1 i’r Ddeddf. Mae enghreifftiau o safleoedd yn Atodlen 1 yn cynnwys rhai sy’n eiddo i Awdurdod Lleol;

safle lle mae cartref symudol o fewn cwrtill annedd a safleoedd sy'n cael eu defnyddio fel llety i bobl sy'n gwneud gwaith amaethyddol, coedwigaeth, adeiladu neu beirianyddol.

Mae eithriad ar wahân hefyd dan adran 2(4) i gartrefi symudol sy'n cael eu defnyddio gan berchennog y safle neu weithiwr.

Cais am drwydded newydd i safle

Mae pob safle sy'n cael ei reoleiddio angen trwydded safle, ar wahân i'r rhai mae'r Ddeddf yn pennu eu bod y tu hwnt i'w chwmpas. Mae methu â gwneud cais am drwydded yn drosedd dan Adran 5(2) Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

Uchafswm hyd trwydded safle yw 5 mlynedd. Ni all y Cyngor ond rhoi trwydded i safle sydd â chaniatâd cynllunio priodol i ddefnyddio'r tir fel safle cartrefi symudol.

I safleoedd sydd eisoes â chaniatâd cynllunio priodol, mae'n rhaid i'r Cyngor brosesu'r cais o fewn 2 fis i ddyddiad derbyn cais cyflawn am drwydded safle.

Mae'n rhaid i unrhyw gais a wneir cyn rhoi caniatâd cynllunio gael ei brosesu o fewn 6 wythnos i ddyddiad rhoi caniatâd cynllunio i'r ymgeisydd.

Gall y ddau derfyn amser uchod gael eu hymestyn os yw'r ymgeisydd a'r Cyngor yn cytuno ar estyniad i'r cyfnod yn ysgrifenedig.

Mae lefelau'r ffioedd am drwyddedau safle newydd wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar amcangyfrif o'r amser a'r costau cyfartalog sy'n dod o gyflawni'r gweithgareddau sydd ynghlwm ac mae'n dibynnu ar nifer y carafanau ar y safle. Maent wedi'u categorio fel a ganlyn:-

Categori	Ffi
Un garafán	£175.00
Un garafán ar safle cymysg*	£185.00
Safle bach (2-20 carafán)	£275.00
Safle canolig (21-50 carafán)	£540.00
Safle mawr (51+ carafán)	£1090.00

* Bydd safle cymysg sydd â mwy nag un garafán yn cael ei drin fel safle bach neu ganolig

Os yw'r Cyngor yn penderfynu peidio â rhoi trwydded safle, mae'n rhaid rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y rhesymau dros y penderfyniad a'r hawl i apelio. Gall yr ymgeisydd apelio o fewn y cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau ar ddyddiad y penderfyniad. Bydd yr apêl wedyn yn cael ei hystyried gan y tribiwnlys eiddo preswyl. Ni all yr ymgeisydd hawlio unrhyw iawndal am gollod a ddaw o ganlyniad i'r penderfyniad wrth ddisgwyl canlyniad yr apêl.

Amrywio amodau trwydded gyfredol

Os yw perchennog safle'n gwneud cais am newid amodau trwydded safle, gall y Cyngor godi ffi am y swyddogaeth hon. Bydd angen talu'r ffi o £240.00 wrth wneud y cais. Os yw deiliad y

drwydded yn dymuno trosglwyddo'r drwydded i unigolyn arall, bydd hyn yn cael ei drin fel cais i amrywio'r drwydded.

Os yw'r cyngor yn pennu bod angen amrywio amodau'r drwydded, ni fydd angen talu ffi.

Adnewyddu trwydded

Mae trwydded safle'n cael ei chyflwyno am gyfnod heb fod yn fwy na 5 mlynedd, oni bai ei bod yn cael ei therfynu trwy ei diddymu.

Bydd angen adnewyddu trwydded cyn y dyddiad y daw i ben

Ffioedd am osod rheolau safle

Mae rheolau safle'n wahanol i amodau trwydded safle ac maent yn cael eu gosod gan berchennog y safle ynghlwm â rheoli ac ymddygiad. Mae'r Ddeddf yn dweud ei bod yn rhaid i bob ochr gytuno ar y rheolau yn dilyn cyfnod o ymgynghori. Mae angen i'r Cyngor gynnal cofrestr gyfredol o reolau safle, sy'n cael eu cyhoeddi ar y wefan.

Lle mae perchennog safle wedi penderfynu gweithredu rheolau newydd ar safle neu wedi amrywio neu ddileu'r rheolau sy'n bodoli, mae darpariaethau Rheoliadau Cartrefi Symudol (Rheolau Safle) (Cymru) 2014 yn berthnasol. Mae Rheoliad 12 yn gofyn bod unrhyw reolau safle sy'n cael eu gosod am y tro cyntaf neu geisiadau i amrywio neu ddileu rheolau safle presennol yn cael eu cyflwyno gyda'r ffi briodol i'r Cyngor.

Mae'r ffi yr un fath ar gyfer cyflwyniad am y tro cyntaf ac am amrywio neu ddileu ar ôl hynny gan fod cost fewnol prosesu'r cais yr un fath i bob math o waith. Mae'r Cyngor wedi gosod ffi o £35.00 am hyn, sy'n adlewyrchu'r costau penodol i'r Cyngor am gyflawni'r swyddogaeth hon.

Cael trwydded newydd

Pe bai trwydded safle'n mynd ar goll neu'n cael ei difrodi, gall perchennog safle ofyn am gopi newydd o drwydded y safle.

Bydd cost am greu'r drwydded ac felly mae angen talu ffi o £19.00 am bob copi newydd o drwydded.

Crynodeb o ffioedd penodol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi cost y gwahanol ffioedd penodol sy'n daladwy fel mae'r Polisi eisoes wedi'i nodi.

	Ffi
Trwydded safle newydd ar gyfer un garafán	£175.00
Trwydded safle newydd ar gyfer un garafán ar safle cymysg	£185.00
Trwydded safle newydd ar gyfer safle bach (2-20 carafán)	£275.00
Trwydded safle newydd ar gyfer safle canolig (21-50 carafán)	£540.00
Trwydded safle newydd ar gyfer safle mawr (51 carafán neu fwy)	£1090.00

Cais i amrywio amodau trwydded safle	£240.00
Gosod rheolau safle	£35.00
Trwydded arall	£19.00

Taliadau gorfodi

Dan adran 15 yn y Ddeddf, os yw'n ymddangos i'r Cyngor bod perchennog safle sy'n cael ei reoleiddio'n methu, neu wedi methu, â chydymffurfio ag amod i drwydded y safle, gall y Cyngor roi'r canlynol i'r perchennog:

- rhybudd cosb benodedig, neu
- hysbysiad cydymffurfio.

Rhybuddion Cosb Benodedig

Mae Adran 5 yn y Ddeddf yn caniatáu i'r Cyngor gyflwyno Rhybuddion Cosb Benodedig am rai mân achosion o dorri amodau trwydded safle.

Rhaid i Rhybuddion Cosb Benodedig beidio â bod yn uwch na lefel 1 ar y raddfa ddirwyon safonol, sef £200.00 ar hyn o bryd.

Bydd rhybudd cosb benodedig yn:

- nodi'r amodau dan sylw a manylion yr achos o fethu â chydymffurfio,
- gofyn i berchennog y safle dalu swm penodol i'r Cyngor mewn cyfeiriad sydd wedi'i nodi ar y rhybudd,
- nodi erbyn pryd y bydd angen talu'r swm penodol.

Os oes rhybudd cosb benodedig wedi'i roi a bod deiliad trwydded y safle wedi methu â thalu'r swm sy'n ddyledus yn unol â'r rhybudd, gallai'r Cyngor dynnu'r rhybudd cosb benodedig yn ei ôl a chyflwyno hysbysiad cydymffurfio am fethu â gweithredu.

Dim ond rhoi dirwy i ddeiliad trwydded y safle mae rhybudd cosb benodedig. Nid yw'n gofyn i'r achos o dorri'r amodau gael ei gywiro. Felly, mae Rhybuddion Cosb Benodedig yn cael eu hystyried yn offeryn gorfodi a allai fod yn fwy addas pan mae mân achosion o dorri amodau trwydded safle.

Ffioedd Hysbysiadau Cydymffurfio

Os ymddengys i'r Cyngor bod amodau trwydded safle wedi'u torri, gall y Cyngor gyflwyno hysbysiad cydymffurfio.

Bydd hysbysiad cydymffurfio yn:

- nodi'r amod dan sylw a manylion yr achos o fethu â chydymffurfio ag o,
- gofyn i berchennog y tir gymryd camau fel y mae'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol ac fel maent wedi'u nodi yn yr hysbysiad i sicrhau y cydymffurfir â'r amod,
- nodi erbyn pryd mae angen cymryd y camau hynny, ac
- egluro'r hawl i apelio.

Bydd y Cyngor yn codi tâl ar y perchennog fel ffordd o adennill y costau am:

1. Benderfynu a ddylid cyflwyno'r hysbysiad ai peidio; a
2. Paratoi a chyflwyno'r hysbysiad neu hawliad.

Mae'r costau y cyfeirir atynt yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu i) y costau o gael cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol). Byddai ffioedd yn seiliedig ar gyfradd tâl y swyddog fesul awr a chostau cyffredinol.

Ynghyd â'r hysbysiad cydymffurfio, bydd y Cyngor yn cyflwyno hawliad a fydd yn nodi:

1. Cyfanswm y costau mae'r Cyngor am eu hadennill;
2. Dadansoddiad manwl o'r costau perthnasol; a
3. Lle mae'r Cyngor yn bwriadu codi llog, cyfradd log y costau perthnasol.

Bydd pob hysbysiad cydymffurfio a gyflwynir yn amrywio o ran cost. Bydd y costau sy'n cael eu codi'n cael eu hystyried a'u pennu fesul achos.

Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio o fewn y cyfnod a nodir ar yr hysbysiad yn drosedd dan adran 18(1) y Ddeddf. Cosb y drosedd yw dirwy. Gall trwydded y safle gael ei diddymu ar ôl tri erlyniad neu erlyniadau dilynol am y trosedd hwn.

Ar ôl erlyniad llwyddiannus am fynd yn groes i hysbysiad cydymffurfio, gallai'r Cyngor gyflwyno hysbysiad i fynd ar y safle a gwneud y gwaith angenrheidiol lle bo diffyg.

Camau gweithredu brys

Mae Adran 21 yn y Ddeddf yn rhoi pŵer i'r Cyngor gymryd camau brys mewn perthynas ag unrhyw ddarn o'r tir sy'n rhan o'r safle trwyddedig os yw'n ymddangos bod:

(a) perchennog y tir yn methu, neu wedi methu, â chydymffurfio ag amod ar drwydded y safle, ac

(b) o ganlyniad i'r methiant hwnnw, bod risg uniongyrchol o niwed difrifol i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson sydd neu a allai fod ar y tir.

Adennill costau am gamau brys neu waith lle bo diffyg

Dan Adran 22 yn y Ddeddf, gall y Cyngor godi ar berchennog y safle fel modd o adennill costau wrth

- benderfynu a ddylif cymryd camau gweithredu,
- paratoi a chyflwyno unrhyw hysbysiad neu ofyniad,
- cymryd camau gweithredu.

Gall y Cyngor arfer ei bŵer i godi tâl trwy gyflwyno hawliad i berchennog y tir am gostau sy'n nodi:

- cyfanswm y costau mae'r Cyngor am eu hadennill,
- dadansoddiad manwl o'r costau perthnasol,
- lle mae llog i gael ei godi, y gyfradd berthnasol y bydd llog yn cael ei godi ar y costau, ac

- yr hawl i apelio

Mae'r costau y gellid eu hadennill yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, gostau cael cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol), costau archwilio a chostau gweinyddol.

Bydd y costau'n cael eu hystyried fesul achos.

Pridiannau Tir

O'r adeg mae hawliad yn cael ei weithredu, bydd y costau ac unrhyw log nes maent yn cael eu hadennill yn bridiant ar y tir y mae'r hysbysiad cydymffurfio neu'r camau brys dan sylw'n ymwneud ag o. Mae'r pridiant yn weithredol ar yr adeg honno fel pridiant cyfreithiol sy'n bridiant tir lleol.

Sut mae'r ffioedd i gael eu talu

Adolygu'r Polisi

Bydd y polisi'n cael ei adolygu yn 2025 a'i ddiwygio yn unol â ffioedd eraill y Cyngor. Bydd unrhyw newidiadau'n cynnwys ystyriaeth i newidiadau yn y costau i'r Cyngor sydd ynghlwm ag ymgymryd â'i swyddogaeth drwyddedu yn y maes hwn.